

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru 2020/21

Eglurhad Ychwanegol

Awst 2020

Gall ymgeiswyr ofyn am eglurhad ychwanegol o unrhyw agwedd ar eu cais cyn ei gyflwyno drwy e-bostio: grantiau@celf.cymru erbyn canol nos **25 Awst 2020**. Bydd y ddogfen yma'n cael ei diweddarau gydag ymatebion i unrhyw geisiadau am eglurhad, yn nhrefn amser. Cânt eu cyhoeddi ar dudalen gwe ein cronfa adfer ddiwylliannol. Caiff fersiwn derfynol y ddogfen ei chyhoeddi ar **1 Medi 2020**. Felly, byddem ni'n eich cynghori i beidio â chyflwyno eich cais cyn **1 Medi 2020**, am y caiff gwybodaeth bwysig ei chyhoeddi hyd hynny a allai effeithio ar eich cyflwyniad.

1. Rydym yn dibynnu ar arian y Loteri gennych i gefnogi ein rhaglen waith flynyddol. A allwn wneud cais i'r gronfa yma am yr incwm loteri a gollir?

Nod y gronfa adfywio ddiwylliannol yw cynorthwyo sefydliadau i oroesi sy'n wynebu posibilrwydd o gau ac ansolfedd cyn 31 Mawrth 2021. Mae arian y Loteri Genedlaethol yn broses gystadleuol, ac nid oes sicrwydd y bydd ceisiadau'n llwyddiannus. Felly mae'n anodd inni ystyried hyn fel colled incwm o ran y gronfa yma. Ond rydym ni'n cydnabod bod ein harian Loteri Genedlaethol, mewn rhai achosion, yn cyfrannu at ran allweddol o gynnydd cyffredinol sefydliad.

Felly, os ydych chi'n sefydliad sydd wedi cael arian y Loteri Genedlaethol gennym mewn o leiaf **ddwy** o'r **tair** blynedd ariannol diwethaf (2017/18 hyd 2019/20), gallwch wneud cais i'r gronfa i ofyn am gymorth ar gyfer costau busnes sefydlog neu gostau eithriadol fel y nodir yn y canllawiau. Gallwch hefyd ymgeisio am gostau i dalu am staff allweddol sydd ar gyflogres y flwyddyn lawn.

Ystyriwch yn ofalus cyn ymgeisio a yw eich angen yn un gwirioneddol. Mae'n bwysig bod arian yn cyrraedd y rhai sydd yn yr angen mwyaf.

Os yw arian y Loteri Genedlaethol yn talu am weithgarwch prosiect unigol penodol, a bod y rhai sy'n gweithio ar y prosiect yn cael eu hariannu gan y Loteri Genedlaethol ar sail prosiect i brosiect, rhaid i'r unigolion yna ymgeisio i **gronfa Llywodraeth Cymru i unigolion**. Ni chewch ymgeisio i'r gronfa yma am hynny.

2. Rwy'n sefydliad er elw – a ydw i'n gymwys i wneud cais i'r gronfa?

Mae'r gronfa yn agored i bob sefydliad celfyddydol yng Nghymru (elw a dielw) sydd wedi eu heffeithio gan y coronafeirws. Rhaid ichi hefyd fodloni'r meini prawf cymhwys, y blaenoriaethau ar gyfer cymorth a'r ymrwymiad i'r contract diwylliannol fel y nodir yn ein canllawiau. Am fod y gronfa yn cynnwys arian elusennol, ni ellir defnyddio'r symiau a gewch i gefnogi unrhyw un o'ch gweithgareddau gwneud elw. Mae'r gronfa'n cefnogi sefydliadau sy'n ceisio ymgynnal nes eu bod yn gallu ailddechrau gweithgarwch sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn 2021. Ni all arian y gronfa ychwanegu at elw masnachol neb.

3. Yn yr adran cymhwysedd, am sinema annibynnol, nodwch y byddwch "yn cefnogi sefydliadau celfyddydol ... sy'n cyflwyno ffilm fel rhan fach o raglen amlgelfyddydol". A allwch chi gadarnhau sut mae hyn yn cael ei ddiffinio/ei fesur?

Disgwylwch i ymgeiswyr hunanddiffinio a ydynt yn lleoliad amlgelfyddydol (gan ddangos ffilm fel rhan o'u harlwy) neu'n sinema yn bennaf (lle mae cynnig y celfyddydau eraill yn cymryd ail le neu heb gael ei gynnig o gwbl). Nid ydym ni wedi nodi y dylai'r penderfyniad ddigwydd ar gownt lefelau incwm – gwyddwn y gall rhai gweithgareddau ddod â rhagor o incwm i mewn nag eraill. Byddem ni'n derbyn ceisiadau gan bob lleoliad amlgelfyddydol oni bai bod y lleoliad yna'n ei ystyried ei hun yn bennaf yn sinema. Os felly, dylent wneud cais i Gymru Greadigol.

Dim ond un cais y gall sefydliad ei wneud i Gymru Greadigol neu i ni gan ein bod yn teimlo y byddai'n anodd i leoliadau amlgelfyddydol ddatgysylltu costau cyflwyno ffilmiau oddi wrth eu gweithgareddau eraill.

Os nad ydych yn siŵr at bwy y dylech gyfeirio eich cais, cysylltwch â'r Cyngor ar grantiau@celf.cymru neu â Chymru Greadigol i drafod y mater.

4. Rydym ni'n sefydliad sy'n bodloni'n llawn y meini prawf eraill o ran cymhwysedd ond nad ydym, am nifer o resymau, yn cyflawni 60%+ o'n rhaglen yng Nghymru. A ydym ni'n gymwys i ymgeisio?

Rydym ni'n cydnabod bod rhai sefydliadau, yn ôl natur eu hamserlen deithiol neu eu cytundebau ariannu ag asiantaethau eraill, yn darparu rhagor o waith ar draws gweddill Prydain a thramor nag yng Nghymru ei hun. Ond os ydych yn teimlo bod gennych achos da dros ymgeisio i'r gronfa adfer ddiwylliannol a'ch bod yn gallu bodloni'n llawn weddill y meini prawf cymhwysedd ac asesu a'n blaenoriaethau ar gyfer cymorth, cysylltwch â ni. Ein he-bost yw: grantiau@celf.cymru er mwyn inni benderfynu a ydych yn gymwys i ymgeisio. Rhaid gwneud hyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau'r gronfa.

5. A fyddai fy ysgol yn gymwys i wneud cais am arian i brynu offer y gallwn ddechrau ymarfer gydag ensembles a pharatoi myfyrwyr ar gyfer arholiadau TGAU a safon uwch?

Ni restrir ysgolion fel rhai sy'n gymwys dan ein meini prawf yn y canllawiau. Ni fyddent yn gymwys i wneud cais gan na fyddant yn gallu bodloni'r meini prawf eraill a osodir gan y gronfa, er enghraifft, gweithio'n bennaf (50%+) mewn un o'n disgyblaethau celfyddydol a ariennir.

6. Band pres ydym ni, ble ddylem ni wneud cais?

Dylai bandiau pres wneud cais i gronfa adfer ddiwylliannol Cyngor Celfyddydau Cymru.

7. Mae ein sefydliad wedi'i gofrestru yn Lloegr ond mae gennym ganolfan yng Nghymru. A ydym ni'n gymwys i wneud cais?

Ydych, rydych chi'n gymwys o roi tystiolaeth inni fod gennych ganolfan barhaol yng Nghymru a'ch bod yn eich disgrifio eich hun fel cwmni sy'n seiliedig yng Nghymru.

8. Rydym ni'n gwmni technegol sy'n darparu offer a gwasanaethau i theatrau, digwyddiadau a gwyliau, i ba gronfa y dylem ni wneud cais?

Os yw prif ffynhonnell eich incwm (60% neu fwy) yn dod o gynnal, neu gyflenwi, digwyddiadau, dylech wneud cais i Lywodraeth Cymru dan bennawd Digwyddiadau ei chynllun. Fel arall dylech ddewis y maes sydd fwyaf perthnasol i'ch prif weithgarwch busnes. Os yw prif ffynhonnell eich incwm (60% neu fwy) yn dod o gefnogi theatrau, canolfannau celfyddydol, neuaddau cyngerdd, orielau neu sefydliadau sy'n darparu gweithgarwch celfyddydol cyfranogol, i ni y dylech chi wneud cais. Mae croeso i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cymorth technegol i ystod gymysg o weithgarwch celfyddydol siarad â ni neu Lywodraeth Cymru.

9. Beth ydych chi'n ei olygu wrth gostau i gadw pobl nad ydynt yn gyflogeion?

Mae rhai sefydliadau'n dibynnu ar weithwyr llawrydd neu bobl hunangyflogedig i ymbaratoi at ailddechrau gweithgarwch erbyn Mawrth 2021. Gallwch gynnwys gwir gostau'r rhain. Peidiwch â'u cynnwys os ydynt ar gyfer gweithgarwch prosiect arferol nad yw'n hanfodol ichi allu ailagor neu ailddechrau gweithgarwch.